O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 304 (Cy. 34)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Glantwymyn, Powys i Gylchfan Mallwyd, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed *13 Chwefror 2013*

Yn dod i rym *25 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Glantwymyn i Fallwyd (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984([1]) a phob pŵer galluogi arall([2]), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Glantwymyn, Powys i Gylchfan Mallwyd, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

2.— Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw;

---

1 () 1984 p.27. Amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

2 () Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.